



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 1712 (Cy.174)**

**2006 No. 1712 (W.174)**

## **TAI, CYMRU**

## **HOUSING, WALES**

**Gorchymyn Trwyddedu Tai  
Amlfeddiannaeth (Disgrifiadau  
Rhagnodedig) (Cymru) 2006**

**The Licensing of Houses in  
Multiple Occupation (Prescribed  
Descriptions) (Wales) Order 2006**

### **NODYN ESBONIADOL**

### **EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi disgrifiad o dŷ amlfeddiannaeth ("HMO") y mae Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") yn gymwys iddo. O dan adran 61(1) o'r Ddeddf, rhaid i bob HMO y mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gymwys iddo fod yn drwyddedig oni bai ei fod yn destun naill ai hysbysiad esemptio dros dro o dan adran 62 o'r Ddeddf neu orchymyn rheoli terfynol neu interim o dan Bennod 1 o Ran 4 o'r Ddeddf.

This Order prescribes a description of a house in multiple occupation ("HMO") to which Part 2 of the Housing Act 2004 ("the Act") applies. Under section 61(1) of the Act every HMO to which Part 2 of the Act applies must be licensed unless it is subject to either a temporary exemption notice under section 62 of the Act or an interim or final management order under Chapter 1 of Part 4 of the Act.

Mae'r Gorchymyn yn gymwys i HMOs yng Nghymru ond nid yw'n gymwys i flociau o fflatiau a droswyd y mae adran 257 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt. Mae'r rhain yn adeiladau sydd wedi'u trosi'n fflatiau hunangynhaliol ac sy'n cynnwys fflatiau hunangynhaliol pan nad oedd y gwaith adeiladu a wnaed mewn cysylltiad â'r trosiad yn cydymffurfio â'r safonau adeiladu priodol, ac nad yw o hyd yn cydymffurfio â hwy, ac mae llai na dwy ran o dair o'r fflatiau hunangynhaliol wedi'u perchen-feddiannu.

The Order applies to HMOs in Wales but does not apply to converted blocks of flats to which section 257 of the Act applies. These are buildings that have been converted into and consist of self-contained flats where the building work undertaken in connection with the conversion did not comply with the appropriate building standards and still does not comply with them, and less than two-thirds of the self-contained flats are owner-occupied.

Mae erthygl 3(2) yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i HMOs eu bodloni er mwyn bod o ddisgrifiad a ragnodir gan erthygl 3(1). Un o'r amodau yw bod y cyfan neu ran o HMO yn cynnwys tri llawr neu fwy. Mae erthygl 3(3) yn rhestru'r lloriau mewn HMO sydd i'w hystyried wrth gyfrifo a yw'r HMO neu unrhyw ran ohono yn cynnwys tri llawr neu fwy.

Article 3(2) sets out the conditions HMOs must satisfy in order to be of a description prescribed by article 3(1). One of the conditions is that all or part of an HMO comprises three or more storeys. Article 3(3) lists the storeys of an HMO that are to be taken into account when calculating whether the HMO or any part of it comprises three storeys or more.

Mae arfarniad rheoliadol o'r effeithiau y bydd y Gorchymyn hwn yn ei gael ar fusnesau, ar gael o Uned y Sector Preifat, Yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn: 02920825111; e-bost [HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk](mailto:HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk)).

A regulatory appraisal of the effects that this Order will have is available from the Private Sector Unit, department for Social Justice and Regeneration, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (telephone: 02920825111; e-mail [HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk](mailto:HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk)).

## 2006 Rhif 1712 (Cy.174)

## 2006 No. 1712 (W.174)

## TAI, CYMRU

## HOUSING, WALES

Gorchymyn Trwyddedu Tai  
Amlfeddiannaeth (Disgrifiadau  
Rhagnodedig) (Cymru) 2006The Licensing of Houses in  
Multiple Occupation (Prescribed  
Descriptions) (Wales) Order 2006*Wedi'i wneud* 27 Mehefin 2006*Made* 27 June 2006*Yn dod i rym* 30 Mehefin 2006*Coming into force* 30 June 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 55(3) o Ddeddf Tai 2004(1), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred upon it by section 55(3) of the Housing Act 2004(1), makes the following Order:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso****Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 30 Mehefin 2006.

1.-(1) The title of this Order is The Licensing of Houses in Multiple Occupation (Prescribed Descriptions) (Wales) Order 2006 and it comes into force on 30 June 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw HMO(2) yng Nghymru heblaw bloc o fflatiau a droswyd y mae adran 257 o'r Ddeddf yn gymwys iddo.

(2) This Order applies to any HMO(2) in Wales other than a converted block of flats to which section 257 of the Act applies.

**Dehongli****Interpretation****2. Yn y Gorchymyn hwn-****2. In this Order-**

(a) ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai 2004; a

(a) "the Act" ("*y Ddeddf*") means the Housing Act 2004; and

(b) ystyr "mangre busnes" ("*business premises*") yw mangre, neu unrhyw ran o fangre, nad yw'n llety i fyw ynddo, neu nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â llety i fyw ynddo, nac yn rhan hanfodol ohono.

(b) "business premises" ("*mangre busnes*") means premises, or any part of premises, which are not, or are not used in connection with, and as an integral part of, living accommodation.

**Disgrifiad o HMOs a ragnodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru****Description of HMOs prescribed by the National Assembly for Wales**

3.-(1) Mae HMO o ddisgrifiad rhagnodedig at ddibenion adran 55(2)(a) o'r Ddeddf pan fo'n bodloni'r amodau a ddisgrifir ym mharagraff (2).

3.-(1) An HMO is of a prescribed description for the purpose of section 55(2)(a) of the Act where it satisfies the conditions described in paragraph (2).

(2) Dyma'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)-

(2) The conditions referred to in paragraph (1) are that-

(1) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddir gan adran 55(3) o'r Ddeddf yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol. *Gweler* y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 261(1).

(1) 2004 c.34. The powers conferred by section 55(3) of the Act are exercisable, as respects Wales, by the National Assembly for Wales and, as respects England, by the Secretary of State. *See* the definition of the "appropriate national authority" in section 261(1).

(2) Ar gyfer ystyr HMO *gweler* adrannau 77 a 254 i 259 o'r Ddeddf.

(2) For the meaning of HMO *see* sections 77 and 254 to 259 of the Act.

- (a) mae'r HMO neu unrhyw ran ohono yn cynnwys tri llawr neu fwy;
- (b) mae wedi'i feddiannu gan bum person neu fwy; ac
- (c) mae wedi'i feddiannu gan bersonau sy'n byw mewn dwy aelwyd unigol neu fwy.

(3) Rhaid ystyried y lloriau canlynol wrth benderfynu a yw HMO neu unrhyw ran ohono yn cynnwys tri llawr neu fwy-

- (a) unrhyw islawr-
  - (i) os caiff ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel llety i fwy ynddo;
  - (ii) os yw wedi'i adeiladu, ei drosi neu'i addasu i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel llety i fyw ynddo;
  - (iii) os yw'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â, ac fel rhan hanfodol o'r HMO; neu
  - (iv) os ef yw'r unig neu'r prif gofnod i'r HMO ar y stryd;
- (b) unrhyw atig-
  - (i) os caiff ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel llety i fyw ynddo;
  - (ii) os yw wedi'i adeiladu, ei drosi neu'i addasu i'w ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel llety i fyw ynddo, neu
  - (iii) os yw'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r HMO, ac fel rhan hanfodol ohono;
- (c) os yw'r llety i fyw ynddo wedi'i leoli mewn rhan o'r adeilad uwchben mangre busnes, gyda phob llawr yn rhan o'r fangre busnes;
- (ch) os yw'r llety i fyw ynddo wedi'i leoli mewn rhan o adeilad islaw mangre busnes, gyda phob llawr yn rhan o'r fangre busnes;
- (d) unrhyw lawr mesanîn nad yw'n cael ei ddefnyddio'n unig fel mynedfa rhwng dau lawr cyffiniol-
  - (i) os caiff ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel llety i fyw ynddo; neu
  - (ii) os yw'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r HMO, ac fel rhan hanfodol ohono; ac
- (dd) unrhyw lawr arall a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol fel llety i fyw ynddo neu mewn cysylltiad â'r HMO, ac fel rhan hanfodol ohono.

- (a) the HMO or any part of it comprises three storeys or more;
- (b) it is occupied by five or more persons; and
- (c) it is occupied by persons living in two or more single households.

(3) The following storeys must be taken into account when calculating whether the HMO or any part of it comprises three storeys or more-

- (a) any basement if-
  - (i) it is used wholly or partly as living accommodation;
  - (ii) it has been constructed, converted or adapted for use wholly or partly as living accommodation;
  - (iii) it is being used in connection with, and as an integral part of, the HMO; or
  - (iv) it is the only or principal entry into the HMO from the street;
- (b) any attic if-
  - (i) it is used wholly or partly as living accommodation;
  - (ii) it has been constructed, converted or adapted for use wholly or partly as living accommodation, or
  - (iii) it is being used in connection with, and as an integral part of, the HMO;
- (c) where the living accommodation is situated in a part of a building above business premises, each storey comprising the business premises;
- (d) where the living accommodation is situated in a part of a building below business premises, each storey comprising the business premises;
- (e) any mezzanine floor not used solely as a means of access between two adjoining floors if-
  - (i) it is used wholly or mainly as living accommodation; or
  - (ii) it is being used in connection with, and as an integral part of, the HMO; and
- (f) any other storey that is used wholly or partly as living accommodation or in connection with, and as an integral part of, the HMO.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

27 Mehefin 2006

27 June 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(1) 1998 p.38.

---

(1) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W332/07/06

ON